ATODLEN 5

ASESIAD ARIANNOL

Cyfrifo cyfraniad – myfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn

8.—(1) Mae'r cyfraniad sy'n daladwy mewn perthynas â myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn nad yw'n fyfyriwr cymwys annibynnol, neu fyfyriwr cymwys o dan yr hen drefn sy'n fyfyriwr cymwys annibynnol ac iddo bartner, fel a ganlyn—

(a) mewn unrhyw achos pan fo incwm yr aelwyd yn £23,680 neu fwy, £45 gyda £1 yn cael ei hychwanegu am bob £8.78 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £23,680; a

(b) mewn unrhyw achos pan fo incwm yr aelwyd yn llai na £23,680, dim.

(2) Mae'r cyfraniad sy'n daladwy mewn perthynas â myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn sy'n fyfyriwr cymwys annibynnol heb bartner fel a ganlyn—

(a) mewn unrhyw achos pan fo incwm yr aelwyd yn £11,025 neu fwy, £45 gyda £1 yn cael ei hychwanegu am bob £8.61 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £11,025; a

(b) mewn unrhyw achos pan fo incwm yr aelwyd yn llai na £11,025, dim.

(3) Rhaid i swm y cyfraniad sy'n daladwy o dan is-baragraff (1) neu (2) beidio â bod yn fwy na £7,992 mewn unrhyw achos.

(4) Caniateir addasu'r cyfraniad yn unol â pharagraff 10.

(5) Pan fo is-baragraff (6) yn gymwys, rhaid i gyfanswm y cyfraniadau beidio â bod yn fwy na £7,992.

(6) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys—

(a) os bydd cyfraniad yn daladwy mewn perthynas â dau neu fwy o fyfyrwyr cymwys (ac eithrio myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd) mewn perthynas â'r un incwm o dan baragraff 5 neu, pan fo incwm gweddilliol partner y rhiant perthnasol yn cael ei ystyried, o dan baragraffau 5 a 7; neu

(b) os incwm gweddilliol myfyriwr cymwys annibynnol a'i bartner yw incwm yr aelwyd a bod gan y ddau ddyfarniad statudol.